## Adnewyddu'r Profiad Grasol

**Darllen Marc 14:66–72, 16:7; Luc 24:34**

Rhaid cofio wrth feddwl am Simon Pedr, fel y bu'n rhaid ei atgoffa ef hyd yn oed bod rhaid adnewyddu'r profiad grasol o alwad Duw o dro i dro. Cofiwn fel yr oedd yn ymffrostio yn ei deyrngarwch i'w Arweinydd. Ni fyddai ef o bawb yn mynd mor isel â gwadu ei fod yn adnabod Iesu. Ond dyma yn union a wnaeth wyneb yn wyneb â'r ferch honno yn yr ystafell y tu allan i lys y Sanhedrin pan oedd yr awdurdodau crefyddol yn rhoddi cyfweliad i Iesu. Yn y fangre honno, pan oedd Iesu yn awr ei gyfyngder, fe wadodd Pedr ei Arglwydd, a hynny dair gwaith. Wedi'r Atgyfodiad, nid yw'n rhyfedd o gwbl i Iesu ar lan Môr Galilea ofyn iddo dair gwaith y cwestiwn y mae'n awr yn ei ofyn i ni: 'A wyt ti yn fy ngharu i?'

Oherwydd fel pawb a alwyd gan Dduw i wasanaethu yn y Deyrnas fel etifeddion Ffydd a chyfeillion i Grist, llwyddodd Pedr yn gyson i'w fynegi ei hun yn gofiadwy. Digwyddodd hynny yn ei Gyffes fawr. Yr oedd Iesu wedi profi poblogrwydd gwerin Galilea, wedi ennyn llid Herod y tywysog, ac yn awr am gael cyfle i adnewyddu mewn lle prydferth o'r enw Cesarea Philipi. Ac ar amrantiad, fel ateb i gwestiwn Iesu, 'Pwy yr ydych chwi yn dywedyd fy mod i?' dywed Pedr, 'Ti yw Crist, Mab y Duw byw'.

Ac fe roddodd Iesu air o gymeradwyaeth iddo: 'Ar y graig hon yr adeiladaf fy Eglwys'. Bu dadlau mawr ar hyd y canrifoedd am y cwestiwn a'r ateb. Ac fe'u hesboniwyd fel datganiad sy'n mynegi profiad sy'n adeiladu'r Ffydd Gristnogol. Yn wir, adnewyddu profiad grasol a wna fel y dywed yr emynydd:

> 'Iesu, nid oes terfyn arnat,
> mae cyflawnder maith dy ras
> yn fwy helaeth, yn fwy dwfwn
> ganwaith nag yw 'mhechod cas:
> fyth yn annwyl
> meibion dynion mwy a'th gâr.'

Adnewyddwn y profiad grasol yn nhymor y bywyd diddiflanedig.

***D. Ben Rees***

**Gweddi'r Adnewyddu**

Anfeidrol Dad y trugareddau, yr ydym ni, dy blant, yn falch o'r gyffes o eiddo Simon Pedr yng Nghesarea Philipi – cyffes sydd angen ei llefaru'n gyson – mai Iesu Grist yw dy Fab a'n Harglwydd ninnau.

'Enw'r Iesu a sancteiddia
holl serchiadau dynol-ryw,
deil i fyny'r galon ysig,
cyfyd feirwon eto'n fyw:
enw'r Iesu
gaiff y clod tragwyddol mwy.'

Gwrandawn ar eiriau'r Gwaredwr i chi a minnau heddiw. A wyt ti yn fy ngharu i? Oherwydd fe wyddom o brofiad ac o hanes eglwysi a chapeli fod cariad at Grist yn medru oeri, a'r rheswm pennaf dros gynnal addoliad cyson yw cynnal y gwres a'r dyhead.

Y gair allweddol a chanolog i'n gweddi yw'r gair 'adnewyddu'. Nid oes, meddai duwiolion yr Eglwys, brofiad o Grist sy'n para am genedlaethau, heb ei adnewyddu'n gyson yn narlleniad yr Ysgrythur ac ar lwybrau gweddi. Mi fedr cariad yr Eglwys at Grist, Pen Mawr yr Eglwys, leihau. Dyna a welodd Ioan yn Asia Leiaf, yn hanes yr eglwys yn Laodicea, a oedd wedi mynd yn glaear – nid yn oer nac yn wresog – ac yn rhoi rhyw hanner cefnogaeth. O Arglwydd, bywha yn rymus ein dymuniad i gynnau'r fflam o'r cyfamod. Maddau i ni ein bod yn medru bod mor ddifeddwl a difater ynglŷn â'r gwirioneddau pwysicaf a roddwyd i blant dynion. Dyna pam y ceisiwn yn awr yn ein hedifeirwch dy faddeuant, fel y medrwn adnewyddu ein tystiolaeth yn rymus ger dy fron.

'Arglwydd, maddau eto i minnau –
ar faddeuant 'rwyf yn byw:
d'unig haeddiant
yw 'ngorfoledd i a'm grym.'

Gofynnwn hyn oll yn enw ein Ceidwad. Amen.